

Pethe - Deffro'r Gwanwyn

Mae'r testun hwn o <http://www.bbc.co.uk/education/guides/zs7hvp4/revision/9>

- Nia Roberts:** Mae'r Theatr Genedlaethol ar daith ar hyn o bryd gyda *Deffro'r Gwanwyn*, y sioe gerdd gynta' i'r cwmni i lwyfannu. Addasiad Dafydd James o ddrama Almaenig ydy hi ac ym 1891 pan welodd y ddrama olau dydd gynta', mi roedd na dipyn o helynt. Ma'r cyfieithiad Saesneg y sioe, *Spring Awakening*, wedi cael cryn lwyddiant ar lwyfanau Broadway a'r West End a heddiw dwi 'di dod yma i Gaerfyrddin i weld yr ymarferion ag i gael gwybod mwy am y cynhyrchiad.
- Fanny Gabor:** Trist iawn oedd i mi glywed na wnaethoch lwyddo yn yr arholiadau fel yr oedd disgwyl ac na fydddech yn mynd ymlaen yn yr Hydref.
- Actorion:** (yn canu) Aha aha aha na fe, pam disgwyl mwy na hyn ta be', ac eto fyth roedd rhaid dal mlan, mae'n wir fe ddaeth i ddim, jyst fel o'r blaen.
- Nia Roberts:** Mae stori *Deffro'r Gwanwyn* wedi ei gosod yn yr Almaen ar ddiwedd y 19eg ganrif. Prif thema y ddrama ydy rhywioldeb ymysg yr arddegau. Mae'r stori'n cael ei hadrodd mewn ffordd sydd yn siŵr o ysgogi trafodaeth.
- Actorion:** (yn canu) ... daw'r dagrau'n gloi, S'dim dianc nawr a methu ffoi, Syrthio'n ddarnau ma'n a chau y drws.
- Nia Roberts:** Sonia ychydig am y cymeriad ti'n bortreadu.
- Daniel Lloyd:** Dwi'n chwarae rhan Georg Zirschnitz a mae o'n breuddwydio ac yn ffantaseiddio'n aml am 'i athrawes bianco fo, a Ffion Dafis sy'n chwara rhan fy athrawes bianco.
- Ellen Ceri Lloyd:** Fi'n chware cymeriad o'r enw Wendla. Ma hi'n 14 mlwydd oed ac ar ddechre'r ddrama ma hi'n blodeuo, so mae'i chymeriad hi yn cwmmpo mewn cariad, yn profi rhyw am y tro cyntaf ac yn mynd yn feichiog.
- Zoë George:** Ma fy rhan i sydd, Martha Bessell, mae hi'n ferch 14 mlwydd oed ac mae hi'n cael ei chamdrin gan ei rhieni.
- Berwyn Pearce:** Ma cymeriad fi, ma'r boi 'ma'n cael breuddwydion drwg amdano'i fam, so mae'n eitha anodd i fi uniaethu 'da. It's all a bit weird innit.
- Nia Roberts:** Gyda'r pynciau dadleuol yna o dan sylw does dim syndod i'r ddrama wreiddiol gan Frank Wedekind gael ei gwahardd.

Bitesize

- Fanny Gabor:** Yn y cyfamser, arhosaf yn driw i chi. Yr eiddoch yn gywir, Fanny Gabor.
- Nia Roberts:** Ond mae'r ddrama wedi dod yn bell ers hynny ac mae bellach yn sioe gerdd roc. Elen Bowman sy'n cyfarwyddo'r sioe ac yn gyfrifol am y cast o 13.
- Elen Bowman:** Mae'n ddrama ddadleuol dros ben os y'ch chi'n meddwl bod y themâu, yn hollol, ry'n ni'n gallu 'u deall nhw nawr, wel meddylwch nôl ym 1890 o'dd e'n hollol shocking. Ma pawb yn gorfod mynd trwy'r cyfnod rhyfedd 'ma o'u glasoed, puberty, pawb yn gorfod gofyn y cwestiynne 'ma am beth sy'n digwydd i fi yn gorfforol neu'n ymenyddol. Dwi'n newid i fod yn oedolyn ac felly ein cyfrifoldeb ni fel athrawon a rhieni falle i fod yn rhan o'r broses 'na yn hytrach na gormesu y broses mewn rhyw ffordd a dyna o'dd, chi'n gwbod, gwaedd Wedekind, yr awdur, nôl canrif yn ôl.
- Ellen Ceri Lloyd:** (yn canu) Mor ryfedd hyn i gyd.
- Nia Roberts:** Enillodd *Spring Awakening* bedair gwobr Olivier yn Llundain, un ohonyn nhw'n mynd i'r Cymro, Iwan Rheon, fel yr actor cynorthwyol gorau mewn drama gerdd. Roeddach chi'n gweithio'n ddiweddar iawn efo Iwan Rheon, 'dach chi 'di bod ar y ffôn efo fo'n ddiweddar?
- Elen Bowman:** I weud y gwir wrthoch chi nes i ffonio Iwan reit ar y cychwyn i drafod gyda fe sut fyddde fe'n gweithio yn y Gymraeg ag o'dd Iwan yn gweud yn syth, "Dim problem." Wrth gwrs dwi 'di darganfod bod e di cael ei gyfieithu dros y byd i gyd.
- Actorion:** (yn canu) Mor rhyfedd hyn i gyd...
- Nia Roberts:** A'r dyn sy'n gyfrifol am gyfieithu *Spring Awakening* i'r Gymraeg ydy Dafydd James. Sut mae hi 'di trosi i'r Gymraeg ta, beth am y sialens yma achos dyma'r tro cynta i chi, Dafydd, gyfieithu rhywbeth fel hyn?
- Dafydd James:** Ie, y tro cynta i gyfieithu unrhywbeth. Wrth gwrs dwi'n gweithio fel dramodydd a fel cerddor ond o'dd y term 'cyfieithydd' - o'n i'n poeni am hwn, fasen i'n gallu'i neud hi ond sylweddoli wedyn, actually ma isie dod tuag ato fe o berspectif creadigol wrth gwrs. Ond yr her mwya wrth gwrs yw'r caneunon.
- Actorion:** (yn canu) Hiraethu'n daer clyw eiriau fy ymbil...
- Dafydd James:** Ma newid o dref blwyfol yn yr Almaen yn yr 19eg ganrif yn y ddeialog ond pan ma nhw'n canu ma nhw'n canu rhyw fath o roc cyfoes ac ma'r iaith yn newid hefyd. Felly oedd hi'n reit braf arbrofi gyda Cymraeg

Bitesize

barddonol, mwy llenyddol a'r Gymraeg mwy cyfoes,
mwy dinesig wedyn.

Nia Roberts:

Sut da chi di paratoi ta ar gyfer hyn? Pa fath o
drafodaeth da chi di gael fel cast ag efo Elen Bowman?

Daniel Lloyd:

O! 'Da ni di bod yn agored iawn efo'n gilydd yn
rhannu'n profiadau personol ni.

Ellen Ceri Lloyd:

Fi'n credu bod e'n rili lyfli achos ma Elen, roedd hi'n rili
neud yn siŵr bod ni'n OK hefyd, a ma ddi'n edrych ar ôl
ni.

Nia Roberts:

Sut da chi'n meddwl bydd y gynulleidfa yn ymateb i'r
pynciau fyddan nhw'n eu gweld a'r golygfeydd rhywiol
fydd ar y llwyfan o'u blaena nhw?

Berwyn Pearce:

Dwi'n credu bydd y gynulleidfa iau yn ymateb yn well
oherwydd byddan nhw'n gallu uniaethu da fe'n well.
Ma'r oedolion yn hwn yn cael eu portreadu yn heriol
iawn.

Nia Roberts:

Felly da chi'n credu y bydd y gynulleidfa yma yng
Nghymru yn ei chofleidio hi?

Elen Bowman:

Dwi'n gobeithio achos mae e'n sôn am rywbeth pwysig,
chi'n gwbod. Ydy, mae'n sôn am ryw ond mwy na dim
byd mae'n sôn am ein cyfrifoldeb ni i blant, chi'n
gwbod. Ma hwnna'n beth difrifol a pwysig ac yn ddoniol
iawn hefyd. Ma 'na ddigon o hwyl ynnddi ond fi'n credu
hefyd bydd pobl ifanc yn gallu uniaethu â fe a dwi'n wir
obeithio wedi 'ny y gwelwn ni nhw yn y theatrau.